

Cefnogaeth Busnes Clwstwr - Swyddog Gweinyddol a Threfn – Lefel 3

Cyfeirnod y Swydd: YYGC00175W1RDE
Lleoliad: Ysgol Glan Clwyd
Cyflog: Gradd 5 (£19,446 - £22,401)
Oriau: 37awr yr wythnos
Math o gytundeb: Llawn Amser, Cyfnod Mamolaeth (12 mis) i ddechrau cyn gynted a phosib Swydd Allanol

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr brwdfrydig ac ymroddgar i ymgeisio am y Swydd uchod yn yr ysgol hapus a llwyddiannus hon.

Mae'r fîm Cefnogaeth Busnes Clwstwr Ysgol Glan Clwyd yn cefnogi ysgolion y clwstwr o fewn y meysydd Cyllid, Adnodau Dynol, Iechyd + Diogelwch, Llywodraethu + amryw o prosiectau eraill o fewn gweithdrefnau gweithredol ysgolion y clwstwr.

Does dim angen profiad penodol yn gysylltiedig efo'r meysydd yma ond yr awydd a'r gallu i ddatblygu o fewn fîm cefnogol. Mae 4 aelod yn y fîm Cefnogaeth Busnes ar hyn o bryd.

Mae'n hanfodol fod gennych sgiliau Technoleg Gwybodaeth rhagorol a gwybodaeth sylfaenol am ddefnyddio systemau cyfrifiadurol. Bydd rhaid i ymgeiswyr fod â sgiliau rhyngpersonol, cyfathrebu a threfnu ardderchog ac yn gallu cyrraedd targedau o dan bwysau ac yn unol ag amserlenni tynn.

Mae'n hanfodol bwysig eich bod chi'n medru cynllunio, trefnu a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Os hoffech sgwrs neu wybodaeth pellach ynglyn â'r swydd yma – byddem yn falch o unrhyw ymholiad drwy gysylltu gyda William Jones (01745 582611).

Dyddiad Cau: Dydd Llun 22/10/18

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk/. Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad.

This Advert is for a Cluster Business Support Administration Officer at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.